



Arholiadau Aelodaeth Gyflawn 14 Hydref 2023

Adroddiad Cyffredinol

Y diffiniad o Aelodaeth Gyflawn:

Mae safon Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar y cyfieithydd angen unrhyw oruchwyliaeth. Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu cyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Tud. 2

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Tud. 6

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 8

Llwyddo: 3

Tri ymgeisydd fu'n llwyddiannus yn y rownd yma o arholiadau. Roedd gwaith dros hanner yr ymgeiswyr yn ffiniol o ran safon y tro hwn. Er bod pob un o'r ymgeiswyr wedi dangos y gallu i gyfieithu'n dda, yn anffodus ni lwyddodd pump i gynnal y safon honno'n gyson ar draws y tri darn. Darnau'n ymwneud â phynciau y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn gyfarwydd â nhw oedd y darnau dan amodau arholiad, sef effaith y pandemig ar fyd natur a manteision darllen ffuglen. Roedd y darn 'gwaith cartref' yn ymwneud â dirywiad siopau'r stryd fawr. Mae'r rhain yn bynciau digon cyffredin, a dylai cyfieithydd sy'n sefyll arholiad ar y lefel hon ymdopi â hwy heb ormod o drafferth. Mae dyfarniad llwyddiant yn dangos i gleientiaid bod modd i gyfieithydd gyflawni ei waith heb oruchwyliaeth. Dylai felly allu ymddiried ynddo i gynhyrchu gwaith o safon a hynny o fewn terfynau amser tynn ar brydiau.

Yn ôl yr arfer, gosodwyd darn i'w gyfieithu cyn yr arholiad. Diben y darn hwn yw caniatáu i'r ymgeiswyr ddefnyddio ystod eang o adnoddau, gan gynnwys geiriaduron ar-lein a chyflawni'r gwaith wrth eu pwysau heb orfod ystyried y terfynau amser sy'n gysylltiedig ag amodau arholiad. Mae'r amser ychwanegol hwn yn eu galluogi i ymchwilio ac i fireinio'u cyfieithiad. Canlyniad hyn yw bod y marcwyr yn gweld eu gwaith ar ei orau. Er bod y darn a osodwyd yn heriol, ac er nad oedd y cyfieithiadau'n ddi-fai, roedd ôl meddwl ar y gwaith a gyflwynwyd ac roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi cyflwyno cyfieithiad graenus at ei gilydd a oedd yn rhagori ar eu darnau arholiad.

Yn gyffredinol, cafodd yr ymgeiswyr fwy o anhawster gyda'r ail ddarn arholiad na'r un cyntaf. Mae hyn yn awgrymu efallai bod yr ymgeisydd wedi treulio gormod o amser ar dwtio'r darn cyntaf, ac felly wedi rhuthro'r broses o brawfddarllen a chywiro'r ail ddarn. Mae'n hanfodol bwysig, felly, rhannu'r amser sydd ar gael yn gyfartal rhwng y ddau ddarn, a neilltuo digon o amser i'r prawfddarllen a'r mireinio yn ogystal â'r cyfieithu. Mae angen digon o ymarfer a chyfieithu hen bapurau neu ddarnau eraill o'r maint priodol dan amodau arholiad. O ymgyfarwyddo â hyn, bydd eu gallu i gynhyrchu gwaith da yn gyflym yn datblygu. Mae enghreifftiau o ddarnau addas i'w gweld ar wefan y Gymdeithas.

Gwelwyd enghreifftiau o gyfieithu effeithiol, graenus, a oedd yn cyfleu'r ystyr yn gywir yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr, a dyma rai enghreifftiau:

...more at ease...

...yn fwy hapus eu byd...

...expand our world views...

...ehangu ein bydolygon...

...the scale and severity...

...maint ac enbydrwydd...

...your time is being well spent...

...yn talu ar ei ganfed...

...suddenly devoid of people.

...pan ddiflannodd pobl ohonynt dros nos

...so-called 'death of the high street'...

...'tranc y stryd fawr', fel y'i gelwir... / ...yr hyn sy'n cael ei alw'n 'dranc y stryd fawr'...

...still slogging through that bestseller...

...yn dal i bydru arni i ddarllen y llyfr poblogaidd hwnnw...

As people hunkered down at home...
Wrth i bobl swatio yn eu cartrefi...

The problems are particularly acute in smaller and less affluent towns, although the scale and severity of the retail crisis now means that high streets and shopping districts in many major cities are also under threat.

Mae'r problem yn hynod ddifrifol mewn trefi bach, llai cefnog, er bod graddau a dwyster yr argyfwng manwerthu bellach yn golygu bod y stryd fawr ac ardaloedd siopa poblogaidd mewn llawer o ddinasoedd mawr hefyd o dan fygythiad.

Wedi dweud hynny, roedd llawer o enghreifftiau hefyd o gywair anaddas yn amharu ar yr ystyr a'r llif.

...feeling anxious...
...ar bigau drain... (Mae collnod ar goll yn y fan yma hefyd.)

...but quality here is subjective...
**...ond mae safon yn oddrychol yma...
...mae ansawdd yn hyn o beth yn wrthrychol...**

...since there were no humans to frighten them.
...gan nad oedd unrhyw bobl ar hyd y lle i'w hofni.

...a raft of new policy initiatives...
...llond gwlad o fentrau polisi...

...'regenerating' flagging high streets.
...adfywio strydoedd mawr sy'n gwegian.

Pumas too became more daring...
Aeth y pwma hefyd yn flaengar...

...biggest daredevils
...y mentrwy'r mwyaf

...more at ease...
**...yn fwy tawel eu meddwl...
...yn fwy cysurus...**

The problems are particularly acute...
Mae'r problemau'n arbennig o sylweddol...

They risk addressing...
Maent yn peryglu mynd i'r afael â ...

...to help us...grow as individuals.
...yn ein caniatáu i dyfu fel unigolion.

...prowling around...
...yn rhodio o amgylch...

...terrestrial mammals...
...anifeiliaid tir...

...political attention...
...sylw gwleidyddwyr...

...town centres...
...**canolau trefi**...

Roedd rhai ymgeiswyr wedi camddeall neu gamgyfleu'r ystyr hefyd: *a few trends emerged prin oedd y tueddiadau a ddaeth i'r amlwg...*; *encounter many different scenarios in safety sawl sefyllfa wahanol o ran diogelwch*. Roedd tri wedi drysu rhwng *stimulate (symbylu/ysgogi)* a *simulate/simulator (efelychydd/dynwardwr)*. Roedd un ymgeisydd wedi cyfieithu 'realisation' yn hytrach na *revitalisation* ac un arall wedi cyfieithu 'political responses' yn hytrach na *policy responses*. Rhaid darllen y gwreiddiol yn ofalus, bod yn ymwybodol o'r geiriau penodol a'u cyfieithu'n briodol.

Wrth gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, mae weithiau'n fwy naturiol defnyddio berfenw yn hytrach nag enw er mwyn osgoi enwau ychydig yn ddieithr, e.e. **arafiad>arafu, arwahaniad>gwahanu / cadw ... ar wahân**.

Roedd rhai hefyd yn ansicr ynghylch hepgor y fannod (*of the*):

One of the benefits of reading fiction
Un o'r manteision o ddarllen ffuglen

...before Covid-19 struck.
...**cyn y pandemig COVID-19**.

...bestseller...
...**a frig y rhestr o'r gwerthwyr gorau...** (camsillafu **ar** yn yr enghraifft yma hefyd)

A rhai'n ansicr ynglŷn â swyddogaeth 'ym' ar ddechrau gair:

...*'losing yourself in a book'*...
...**ymgolli eich hun mewn lyfr**...

...*clear segregation can be essential*...
... **gall ymwahanu clir fod yn hanfodol**...

Nid oedd nifer y gwallau treiglo a welwyd yn uchel ond roedd un ymgeisydd wedi cynnwys **mae'r marwolaeth** (*the death*), a rhai wedi defnyddio **ei fod** wrth gyfeirio at enw benywaidd unigol.

Gwelwyd unwaith eto sawl enghraifft o ddefnydd anghywir o'r ferf amhersonol, e.e.:

A growing body of research...shows
Dangosir corff o ymchwil sy'n dal i dyfu...

GPS tracking data...shows that many...
Dangosir data tracio GPS...bod llawer o...

It has also been shown to help us ...
Fe'i dangoswyd hefyd i'n helpu

It has also been shown to...
Dangosir hefyd ei fod...

Hepgorwyd ambell air neu ymadrodd yma a thraw, e.e. **ambell, eang, hwnnw**, ac **nid yn unig...ond...** ac roedd sawl ymgeisydd wedi hepgor un elfen wrth gyfieithu *unprecedented accidental experiment*.

Roedd pob ymgeisydd wedi llunio cyfieithiadau graenus ac effeithiol. Fodd bynnag, yr her ar y lefel hon yw cynnal y safon uchel honno'n gyson ar draws y tri darn. Ni ellir gorbwysleisio

pwysigrwydd darllen dros y gwaith yn drylwyr, oherwydd bod hynny'n gyfle i atal nifer o'r mân wallau oedd yn gostwng safon y gwaith yn gyffredinol, yn ogystal â chaboli'r cyfieithiad cyfan er mwyn argyhoeddi'r darllenydd ei fod yn ddarn o waith gwreiddiol ac nid yn gyfieithiad. Anogir darpar ymgeiswyr i achub ar bob cyfle i hogi eu sgiliau ymhellach, ac yn enwedig eu sgiliau prawfddarllen, fel bod sylwi ar fân lithriadau yn dod yn ail natur iddynt.

Yn olaf, ni ellir pwysleisio digon pa mor bwysig yw darllen Cymraeg safonol yn eang er mwyn datblygu ymwybyddiaeth gynhenid o gywair a chystrawen raenus. Bydd hynny'n cynorthwyo'r ymgeiswyr i wneud cyfiawnder â'u crefft.

Rwy'n llongyfarch y tri ymgeisydd a fu'n llwyddiannus y tro hwn, ac yn annog y lleill i ddyfalbarhau, gan fod enghreifftiau o gyfieithu da ym mhob un o'r papurau. Diolch o galon i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r Bwrdd Arholi Testunau am eu cefnogaeth a'u diwydrwydd ac i'r marcwyr am eu gwaith gofalus a thrylwyr

**Y Dirprwy Arholwr i'r Gymraeg
Rhagfyr 2023**

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 1
Llwyddo: 1

Dim ond un ymgeisydd a fentrodd sefyll yr Arholiad Cyflawn y tro hwn, ac roedd hynny'n siom. Serch hynny, roedd yn ymgeisydd profiadol a chadarn ac yn llawn haeddu llwyddo. Mae ennil Aelodaeth Gyflawn yn gofyn nid yn unig am gywirdeb iaith ond hefyd am ddealltwriaeth lwyr o gystrawen ac idiomau'r ddwy iaith ac ar ben hynny ymwybyddiaeth gadarn o gywair a chyd-destun, ynghyd â gwybodaeth gyffredinol dda. Heb os nac oni bai roedd gwaith yr ymgeisydd yn cyflawni'r gofynion hyn ac yn gyson ei safon trwy'r tri darn.

Roedd y cyfieithiadau o'r tri darn yn gywir a gofalus ond cafwyd mân frychau yn y gwaith. Ambell waith cafwyd geiriau neu ymadroddion oedd yn glynu'n rhy agos at y Gymraeg neu'n taro'n chwithig yn Saesneg.

Darn 1

Rydym yn ddigon cyfarwydd

We are fairly familiar

Gwell fyddai 'We are all too familiar'.

wedi cyflymu'r broses

has made the process faster

Byddai 'has accelerated the process' yn well.

yn y drefn

in the way of things

Byddai 'in the order of things' yn well yn Saesneg.

sefyllfa fwy niweidiol

a more harmful situation

Byddai'r gair 'damaging' yn fwy priodol yn y cyd-destun hwn.

a fu'n gonglfaen diwylliannol a chymdeithasol

that's been a cultural and social cornerstone

Mae amser y ferf yn anghywir yn y fan hon. Mae'r Gymraeg yn cyfleu oes a fu (a ddaeth i ben dipyn yn ôl) ond yn y Saesneg, mae'r defnydd o'r amser perffaith yn awgrymu bod y sefyllfa wedi parhau hyd yn ddiweddar iawn. Byddai 'that was' neu 'that was once' yn cyfleu'r ystyr yn well.

[p]roblemau cynnal capeli gweigion

the problems of maintaining empty chapels

Mae'r ymadrodd hwn yn glynu'n rhy agos at y Gymraeg. Byddai'r gair 'upkeep' yn fwy naturiol yn y fan hon.

tynged yr achosion

fate of the causes

'Chapels' a ddefnyddir yn Saesneg i gyfieithu 'achosion'.

Darn 2

mae'n frawychus darllen am

it's terrible reading about

Byddai 'terrifying' yn cyfleu ystyr y Gymraeg yn well.

nad oddi yno y daw ei hachubiaeth

that's not where its salvation will be coming from.

Anodd cyfieithu brawddegau 'pwysleisiol' i'r Saesneg ac weithiau mae angen meddwl yn fwy creadigol a pheidio â glynu mor agos wrth y Gymraeg. Byddai rhywbeth fel '*its salvation will come from elsewhere*' yn gwneud y tro yn well.

dysgwyr

learners

Y duedd yn Gymraeg yw defnyddio 'dysgwyr' ar ei ben ei hun i gyfeirio at ddysgwyr Cymraeg ond ni fyddai hyn mor amlwg efallai i ddarllenwyr di-Gymraeg. Gwell rhoi '*Welsh learners*'.

Darn gwaith cartref

Barddoni

creating poetry

Byddai '*writing poetry*' yn fwy naturiol.

Yn ddiamau

In all likelihood

Mae 'yn ddiamau' yn gyfystyr a heb amheuaeth felly byddai '*certainly*' yn gyfieithiad gwell.

Hynny yw

That's to say

'*In other words*' fyddai'r ymadrodd naturiol yn Saesneg.

mae'n reddfoll i ni ddefnyddio

it's instinctive for us to use

Mae'r cyfieithiad yn dilyn y Gymraeg yn agos. Y duedd yn Saesneg fyddai dweud '*we instinctively use*'

a'r peth tyngedfennol yw

the crucial thing is

Unwaith eto mae'r cyfieithiad yn glynu'n agos at y Gymraeg. Byddai '*what is crucially important is*' yn well.

Er y mân wendidau, gwelwyd sawl enghraifft o gyfieithu campus, naturiol.

Darn 1

fod 'enwadau' yn llygadu capeli sydd ar fin cau fel asedau i'w gwerthu

That 'denominations' are eyeing up chapels on the verge of closure as assets to be sold

Darn 2

y 'Fro Gymraeg'

heartland

yn llygad ei le

spot-on

mae bron yn Amen ar

it almost spells an end to

prynu talpiau mawr o Gymru

buying up chunks of Welsh land

hanner derbyn

half-hearted acceptance

a rhyfeddu atynt
staring at them in wonderment.

Darn gwaith cartref

dal hanfod
capture the essence of

allai neb anturio y tu hwnt i gyfyngiadau'r ddaear heb long ofod, ac mae angen cerbyd ffigurol i ganfod ein ffordd trwy'r cosmos cynganeddol hefyd.
no-one can venture beyond the confines of the earth without a spaceship, and we need a figurative vehicle to find our way through the cosmos of cynganedd, too.

I gloi, carwn longyfarch yr ymgeisydd llwyddiannus a diolch yn fawr i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac aelodau'r Bwrdd Arholi Testunau am eu hymroddiad a'u gwaith proffesiynol a gofalus.

**Y Dirprwy Arholwr i'r Saesneg
Rhagfyr 2023**